The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

National Infrastructure Planning
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Gwasanaethau Cwsmeriaid: 0303 444 5000
e-bost: Abergelli.Power@pins.gsi.gov.uk

Kirstin Gardner
Rheolwr Prosiect
Abergelli Power
49 York Place
Caeredin
EH1 3JD

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010069

Dyddiad: 20 Ebrill 2018

Annwyl Ms Gardner,

Diolch i chi am eich negeseuon e-bost dyddiedig 21 Mawrth 2018, a neges e-bost ddilynol Chris McKerrow ar 23 Mawrth 2018, yn amgáu dogfennau drafft Abergelli Power Limited i'w hadolygu.

Fel y cynghorwyd yn ein neges e-bost at Dermot Scanlon, dyddiedig 27 Chwefror 2018, nid oeddwn wedi gallu cytuno i adolygiad cynhwysfawr o'r dogfennau. Felly, dim ond gwiriad lefel uchel a gynhaliwyd. Atodir ein sylwadau at y llythyr hwn yn yr Atodiadau canlynol:

Atodiad 1: Sylwadau ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft
Atodiad 2: Sylwadau ar y Memorandwm Esboniadol drafft
Atodiad 3: Sylwadau ar y Datganiad o Resymau drafft
Atodiad 4: Sylwadau ar y Llyfr Cyfeirio drafft
Atodiad 5: Sylwadau ar yr Adroddiad Ymgynghori drafft
Atodiad 6: Sylwadau ar y Datganiad Amgylcheddol drafft (Penodau 1-5)
Atodiad 7: Sylwadau ar y Cynlluniau drafft
Atodiad 8: Sylwadau Cyffredinol

Nodwch fod y sylwadau, heb ymrwymiad, yn sail i unrhyw benderfyniad a wnaed o dan Adran 55 Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) neu gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar unrhyw gais a gyflwynwyd.

Gobeithiwn y bydd ein sylwadau'n fuddiol, ond os oes unrhyw beth yn aneglur, neu pe baech yn dymuno trafod unrhyw fater, yna mae pob croeso i chi gysylltu â ni.

Nodaf y bu'n fwriad gennych yn flaenorol i gyflwyno'r cais yn ystod yr wythnos yn dechrau 28 Mai 2018. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau cyn gynted ag y bo modd a yw'r dyddiad hwn yn gywir o hyd, neu a oes dyddiad newydd wedi'i gynnig. Mae'n ofynnol i ni gyflwyno llythyr 'rhagbaratöol' at Awdurdodau Lleol (ALlau) i'w cynghori ynghylch cyflwyno'r cais a dweud wrthynt beth a ddisgwylir ganddynt ryw 4 wythnos cyn y disgwylir i gais gael ei gyflwyno. Felly, os caiff y cais ei gyflwyno ar ddiwedd mis Mai, bydd angen i ni ysgrifennu at ALlau erbyn diwedd mis Ebrill.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

Hefin Jones

Mr Hefin Jones
Rheolwr Achos

Atodiad 1: Sylwadau ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (DCO)

Rhif y pwynt	Rhif y paragraff	Cwestiwn/ Sylw
1	Cyffredinol	Ni ddylai fod unrhyw fylchau heb eu poblogi.
2	Erthygl 38	Mae'n cyfeirio at a65 Deddf Rheoli Llygredd 1874; mae hon wedi'i diddymu. Dylai'r Ymgeisydd sicrhau bod yr holl gyfeiriadau deddfwriaethol yn y DCO yn gyfeiriadau at ddarpariaethau sy'n bodoli eisoes. Mae paragraff 38 y Memorandwm Esboniadol yn ymwneud â'r erthygl hon hefyd.
3	Cyffredinol	Dylai'r Ymgeisydd sicrhau bod yr holl Atodlenni yn cyfeirio at yr erthyglau cywir (ar ochr dde uchaf pob Atodlen).
4	Cyffredinol	A yw'r Ymgeisydd wedi ystyried DCOau sydd wedi'u gwneud yn fwyaf diweddar o ran newidiadau i ddarpariaethau statudol a wnaed gan Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 wrth baratoi ei DCO drafft? Byddai hyn yn berthnasol hefyd i baragraff 40 y Memorandwm Esboniadol.
5	Cyffredinol	Y Nodyn Esboniadol (ar y diwedd) – ble mae'r Ymgeisydd yn bwriadu y gellir gweld dogfennau copi ac a yw hynny wedi'i gytuno gyda phwy bynnag sy'n rheoli'r lleoliad hwnnw?
6	Gofyniad 8	Mae Gofyniad 8(1) y DCO drafft yn cyfeirio at **ganfyddiadau** 'arolwg cyfyngiadau ecolegol cyn-adeiladu' – ond a yw'r DCO drafft yn sicrhau'n ddigonol yr **ymgymerir** â'r arolwg hwn?
7	Gofyniad 11	Byddai'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) yn cael ei gymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio perthnasol, ond a ddylai fod rôl ymgynghori gan Cyfoeth Naturiol Cymru? A yw hyn yn rhywbeth y mae'r Ymgeisydd yn teimlo y byddai'n ddoeth ei ychwanegu?

Atodiad 2: Sylwadau ar y Memorandwm Esboniadol drafft

Rhif pwynt	Rhif paragraff	Cwestiwn/ Sylw
1	Cyffredinol	Dylai'r Ymgeisydd sicrhau bod pob esboniad a geir yn y Memorandwm Esboniadol hwn yn gywir a chynhwysfawr o ran yr hyn y mae'r ddarpariaeth DCO gyfatebol yn ei amodi (a bod yr holl gyfeiriadau at ddogfennau/deddfwriaeth arall yn gywir).
2	31	A yw'r Ymgeisydd wedi ystyried a146 Deddf Cynllunio 2008?
3	34	Mae'n dweud ei fod 'yn dilyn y ddarpariaeth fodel yn fras' – a all yr Ymgeisydd esbonio lle nad yw'n gwneud hynny (yn hytrach nag atodi fersiwn â newidiadau trac yn unig) a nodi'r union ddarpariaeth fodel. Mae'r sylw hwn yn berthnasol hefyd i'r Memorandwm Esboniadol drwyddo draw, ble bynnag y mae'r Ymgeisydd yn hepgor gwneud yr un o'r ddau beth hynny.
4	36	A yw'r Ymgeisydd wedi ystyried p'un a fyddai a203 Deddf Tai a Chynllunio 2016 yn berthnasol iddo ai peidio ac, os ydyw, a fyddai'n osgoi'r angen am yr erthygl DCO?
5	40	Gweler y sylw o dan y pennawd 'DCO'.
6	45	Os yw'r erthygl yn darparu ar gyfer uchafswm cyfnod o feddiant dros dro, esboniwch.
7	53	Gweler y sylw o dan y pennawd 'DCO'.
8	55	A fyddai'n ddoeth i'r Ymgeisydd restru'r holl gynlluniau ac ati yn llawn yn yr erthygl DCO ei hun? – Erthygl 40.
9	60.3	Os na ellir rhoi caniatâd i 'ddatblygiad cysylltiedig' o dan y DCO arfaethedig hwn, gallai'r Ymgeisydd ddymuno ystyried a yw'r defnydd o'r gair 'cysylltiedig' yma yn briodol/yn ddryslyd o bosibl.
10	61.15	A yw'r gofyniad yn seiliedig ar unrhyw gynsail neu ddarpariaeth fodel? Byddai'r sylw hwn yn berthnasol hefyd i unrhyw baragraffau tebyg a ddrafftiwyd yn y Memorandwm Esboniadol, lle mae hynny'n aneglur.
11	61.20	Gallai fod yn ddefnyddiol pe bai esboniad/ cyfiawnhad o ran sut mae hyn (gofyniad 20) yn cydweddu â pharagraff 19 Nodyn Cyngor 15.
12	70 a 74	Ai ddylai fod yn Abergelli Solar Farm neu Abergelli Solar Limited?

Atodiad 3: Sylwadau ar y Datganiad o Resymau drafft

Rhif y pwynt	Rhif y paragraff	Cwestiwn/ Sylw
1	Cyffredinol	Mae Tabl 3 y Datganiad o Resymau yn cyfeirio dro ar ôl tro at "Schedule 11 of the Order". Mae Atodlen yn Atodlen "i" Orchymyn (nid "o" Orchymyn).
2	1.8 i 1.10	Sut yr ymdrinnir â chaniatadau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (gan gynnwys Datblygu a Ganiateir sydd ynddo'i hun yn fath o ganiatâd cynllunio) yn y DCO? Dylai'r Ymgeisydd ystyried a ddylid ymdrin â nhw – e.e. ni all gwaith a ganiateir gan DCO ddechrau, ac ni ellir gweithredu pwerau Caffael Gorfodol hyd nes y ceir y caniatadau cynllunio hynny. A oes cytundeb yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) gan yr Ymgeisydd eto bod hawliau Datblygu a Ganiateir yn bodoli, os yw'n dibynnu ar Ddatblygu a Ganiateir. Beth yw cam cyfredol unrhyw gais(geisiadau) am ganiatâd cynllunio?
3	1.26	A yw perchnogaeth o'r 1.5 ha cyfan yn cael ei chaffael yn orfodol? Os ydyw, pam? A ellid cyfyngu rhywfaint ohono i Gaffael Gorfodol hawliau'n yn unig?
4	1.27	Brawddeg olaf – ai Caffael Gorfodol perchnogaeth tir neu dim ond hawliau newydd yw hynny? Os perchnogaeth ydyw, yna pam?
5	1.31 a 5.4.1	A yw'r Ymgeisydd wedi ystyried p'un a fyddai a203 Deddf Tai a Chynlluio 2016 yn berthnasol iddo ai peidio ac, os ydyw, a fyddai'n osgoi'r angen am yr erthygl DCO?
6	1.32.1 a 11.1	Dylai'r esboniad fod yn gliriach ei fod yn ymwneud â Chaffael Gorfodol rhydd-ddaliad (h.y. perchenogaeth).
7	1.37	A yw'r holl bersonau a restrwyd yn Rhan 3 y Llyfr Cyfeirio wedi'u rhestru hefyd yn Rhan 1 y Llyfr Cyfeirio?
8	1.40	Y gair "all" – a yw wedi bod yn bosibl eisoes cytuno unrhyw ran ohono trwy gytuniad preifat? Os ydyw, a oes angen pwerau Caffael Gorfodol ar gyfer y rhannau hynny o hyd?
9	1.47 (a 6.2.6)	Yn 1.16, ceir gyfeiriad at fod pwerau Caffael Gorfodol yn ofynnol ar gyfer datblygu) yn ogystal â'i hwyluso), ond nid oes cyfeiriad at hynny yma. Pam?
10	1.58.4 (a 5.6.3)	Rhaid poblogi'r DCO â darpariaethau amddiffynnol - ni ddylid ei adael yn wag wrth ei gyflwyno. Hefyd, yn Adran 8, nid yw'r Ymgeisydd wedi sôn p'un a oes unrhyw dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol er ei fod wedi sôn am ystyriaethau arbennig eraill. Pam?
11	1.60	A oes unrhyw rwystrau rhag cael caniatadau cynllunio o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref? A yw Cyfeirnod Dogfen 5.4.0 yn sôn am ganiatadau cynllunio? Pa gamau y mae'r ceisiadau am ganiatadau cynllunio arnynt?
12	6.4.1	Gweler y sylwadau o dan yr adran Llyfr Cyfeirio isod mewn perthynas â nodi union hawliau o fewn Dosbarth 1 ar gyfer pob plot perthnasol, a sicrhau bod y tabl hwn yn cael ei atgynhyrchu'n llawn yn y

		Llyfr Cyfeirio.
13	6.5.2	Mae pennawd colofn olaf y tabl yn cynnwys 'statws trafodaethau', ond nid yw'r statws hwnnw'n ymddangos ar gyfer unrhyw un o'r plotiau yn y tabl. Pam?
14	8.3.3	A fydd a138 Deddf Cynllunio 2008 yn cael ei defnyddio hefyd?
15	8.3.5	Tabl – mae'n dweud bod y darpariaethau amddiffynnol i'w cael yn y DCO, ond nid ydynt ar hyn o bryd. Dylid eu poblogi wrth gyflwyno'r cais (os nad ydynt wedi'u cytuno, yna'r fersiynau a ffefrir gan yr Ymgeisydd). A fydd Rhan 2 Atodlen 11 DCO yn nodi'r ddau gwmni Grid Cenedlaethol y cyfeirir atynt yma? Cymru wedi'i sillafu'n anghywir. Mae Abergelli Solar Limited i'w weld yma, ond mewn rhannau eraill o'r Datganiad o Resymau ac yn y DCO, mae'n dweud Abergelli Solar Farm ar hyn o bryd – dylid egluro'r anghysondebau.
16	8.4	Pam na sonnir am ganiatadau cynllunio'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref y bydd eu hangen ar yr Ymgeisydd?
17	11.8	Efallai nad oes cytundeb ynghylch iawndal ac nad yw wedi'i dalu yn ystod y cyfnod 5 mlynedd y cyfeiria'r Ymgeisydd ato yma, felly a fydd cyllid ar gael ar ôl diwedd y 5 mlynedd os digwydd hynny?

Atodiad 4: Sylwadau ar y Llyfr Cyfeirio drafft

Rhif y pwynt	Rhif y paragraff	Cwestiwn/ Sylw
1	Cyffredinol	Dylai'r Ymgeisydd wybod am y cyngor yn *Neddf Cynllunio 2008: Canllawiau yn ymwneud â gweithdrefnau ar gyfer caffael tir yn orfodol.*
2	Cyffredinol	Dylai'r Ymgeisydd sicrhau fod unrhyw un sydd wedi'i restru yn Rhan 3 wedi'i restru yn Rhan 1 hefyd.
3	Cyffredinol	Mae angen poblogi'r holl fylchau gwag – gan gynnwys y diffiniad o bob math o hawl i'w chreu.
4	Cyffredinol	Nid yw'n glir a yw'r Ymgeisydd yn bwriadu e.e. dweud yn syml y bydd plot penodol yn destun Hawliau Dosbarth 1 neu, yn lle hynny, bod yn fwy penodol ynghylch pa rai o'r Hawliau Dosbarth 1 yn union y bydd plot unigol yn destun iddynt? Cynghorwn yr olaf, ac os nad yw'r Ymgeisydd yn gwneud hynny, dylid cwestiynu'r angenrheidrwydd i blot fod yn destun yr holl hawliau a restrwyd yn Nosbarth 1.
5	Cyffredinol	Mae'n ymddangos bod rhai plotiau yn cynnwys yr hyn yr ymddengys yw Rhifau Teitl y Gofrestrfa Tir, heb ddweud yn glir mai dyna ydynt (gweler y rhifau yn dechrau "WA…" yn y disgrifiadau o'r plotiau).
6	Cyffredinol	Nid yw sylwadau ar y Llyfr Cyfeirio drafft yn ymwneud â chywirdeb gwybodaeth fanwl a ddarparwyd gan yr Ymgeisydd y mae dyletswydd ganddo i wneud ymchwiliad trwyadl er mwyn nodi personau Categori 1, 2 a 3.
7	Cyffredinol	Dylai Cyflwyniad y Llyfr Cyfeirio ddarparu gwybodaeth ar gyfer yr holl liwiau fel y'u dangosir yn yr Allwedd ar y Cynlluniau Tir sy'n nodi tir rhydd-ddaliad sydd i'w gaffael yn orfodol (wedi'i arlliwio'n binc), hawliau sydd i'w caffael yn orfodol a hawliau newydd sydd i'w creu (wedi'u harlliwio'n las) a defnydd dros dro o dir (wedi'i liwio'n felyn). Mae Pwynt 10 yn cyfeirio at y Cynlluniau Tir a byddai'n fuddiol pe baent yn cynnwys mwy o fanylion.
8	Cyffredinol	Mae'r Canllawiau yn ymwneud â gweithdrefnau ar gyfer caffael tir yn orfodol Atodiad C yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn datgan: *There should be no discrepancy between the description of the land in the book of reference and the plan, and no room for doubt on anyone's part as to the precise areas of land which are to be compulsorily acquired.*
9	Cyffredinol	Cynghorir yr Ymgeisydd i sicrhau croesgyfeirio cywir rhwng y Llyfr Cyfeirio, DCO (yr Erthygl a'r Atodlen berthnasol) a'r Cynlluniau Tir.
10	Cyffredinol	Rhaid i ddisgrifiadau o blotiau yn y Llyfr Cyfeirio gyfateb i'r Cynlluniau. Un o'r pwyntiau adnabod yw Abergelli Fach Farm mewn perthynas â nifer o blotiau o dir sydd wedi'u rhestru yn y Llyfr Cyfeirio.

		Fodd bynnag, ar y Cynllun Tir cyfeirnod 2.2.1 (Taflen 1 o 2) mae'r gair 'Fach' yn eisiau o enw llawn yr eiddo.
11	Cyffredinol	Ar hyn o bryd, dim ond yn erbyn y llwybrau troed cyhoeddus a thirnodau lleol a nodwyd ar dirnodau'r Cynlluniau Tir y gellir gwirio'r disgrifiad o'r tir yn y Llyfr Cyfeirio. O ran plotiau 23 a 24, byddai'n fuddiol pe bai'r briffordd gyhoeddus fabwysiedig (B4489) yn cael ei nodi hefyd ar y Cynllun Tir cyfeirnod 2.2.2 (Taflen 2 o 2) fel ydyw yn y Llyfr Cyfeirio.

Atodiad 5: Sylwadau ar yr Adroddiad Ymgynghori drafft

Rhif y pwynt	Rhif y paragraff	Cwestiwn/ Sylw
1	Cyffredinol	Mae'r Adroddiad Ymgynghori yn glir a threfnus; yn rhoi trosolwg o ddau Gyfnod ymgynghori gwahanol yn 2014-2015 a 2017-2018. Fodd bynnag, gan nad yw'r Atodiadau wedi'u cyflwyno a bod rhai rhannau o'r dogfennau yn dal i gael eu hadolygu, nid oes modd asesu'r ddogfen gyfan.
2	Cyffredinol	Cynghorir yr Ymgeisydd i sicrhau bod y fersiwn derfynol o'r Adroddiad Ymgynghori yn cyfeirio'n gywir at yr holl Atodiadau, Tablau a Ffigurau perthnasol drwy'r ddogfen gyfan. Mae angen enwi a rhifo Tablau a Ffigurau yn gyson. Mae cywirdeb enwi o gymorth wrth groesgyfeirio'r testun o brif gorff yr Adroddiad Ymgynghori a'r Atodiadau.
3	Cyffredinol	Gall fod yn fuddiol i'r Ymgeisydd gwblhau ei ddrafft ei hun o'r rhestr wirio a55 a ddefnyddir gan yr Arolygiaeth Gynllunio i asesu p'un a ellir derbyn y cais drwy archwiliad. Hefyd, gallai'r Ymgeisydd gyflwyno'i gopi o'r rhestr wirio wedi'i chwblhau, ochr yn ochr â'r Cais. Gellir gweld y fersiwn ddiweddaraf fel Atodiad 3 i nodyn Cyngor chwech: Adran 55 Derbyn Rhestr Wirio Ceisiadau.
4	Tudalen gynnwys	Bydd angen diweddaru'r rhestr Tablau, oherwydd ar hyn o bryd mae'r Tablau ond yn cyfeirio at Adrannau 2 i 6. Nid yw Tablau 5-1 a 5-2 (Adran 5) wedi'u rhestru. Cyfeirir at y tabl sylweddol Tabl 5-2 (Cerrig Milltir Ymgynghoriad Prosiect) trwy gydol yr Adroddiad Ymgynghori. Mae paragraffau 8.4.38 i 8.4.41, a 10.2.1, 10.2.5, 10.2.26 ac ymhellach yn Adrannau 10 ac 11 yn cyfeirio at Tabl 2-2, a Tabl 5-2 ydyw mewn gwirionedd. Mae'r teitl *'Appendix 5: Non-Statutory Consultation Post-Statutory Consultation Phase' ('Atodiad 5: Ymgynghoriad Anstatudol Ar Ôl y Cyfnod Ymgynghori Statudol'* yn ymddangos yn ddryslyd ac aneglur, ac efallai y gellid ei ail-enwi. Nid yw'n amlwg at ba gam o'r ymgynghoriad y mae'n cyfeirio. A all yr Ymgeisydd gadarnhau p'un a yw'n berthnasol i'r cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Mai 2018 yn unol â pharagraff 8.6? Nodwn nad yw'r Atodiadau wedi'u darparu, ac ar hyn o bryd dim ond teitlau sylfaenol a geir yn y mynegai, fel: • Cyffredinol; • Ymgynghoriad Anstatudol; • Ymgynghoriad Cwmpasu yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol; • Ymgynghoriad Statudol; • Ymgynghoriad Anstatudol Ar Ôl y Cyfnod Ymgynghori Statudol; ac • Adborth a Chanlyniadau'r Ymgynghoriad.

		Byddai o gymorth pe bai mynegai o'r holl Atodiadau yn cael ei ddarparu, er mwyn hwyluso croesgyfeirio.
5	Adran 1	Nodwn y bydd y Crynodeb Gweithredol yn cael ei osod yn y ddogfen ar ôl cwblhau cynnwys yr adroddiad llawn, gan gynnwys y wybodaeth gefndir am ddau gyfnod gwahanol yr ymgynghoriad: Cam 1 (Ionawr 2014–Mawrth 2015) a Cham 2 (Ebrill 2017–Mai 2018).
6	3.3.7	Mae'r paragraff yn cyfeirio at a49(2) Deddf Cynllunio 2008, sy'n pennu bod rhaid i'r Ymgeisydd ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd o dan a42, a47 ac a48 Deddf Cynllunio 2008 wrth wneud cais am orchymyn yn rhoi caniatâd cynllunio. Cynghorir yr Ymgeisydd i sicrhau bod gwybodaeth a roddir yn Adran 6.4 (Ymgynghoriad Cam 1) ac Adran 8.4 (Ymgynghoriad Cam 2) yn clymu i mewn â'r dystiolaeth a ddarparwyd yn yr Atodiadau cyflawn cysylltiedig, a'i fod yn cyflwyno naratif cadarn o ran y cydymffurfio hwn. Mae'n un o ofynion rhestr wirio derbyn a55 i'r ymgeisydd ddangos yn glir ei fod wedi ystyried ymatebion a dderbyniwyd o dan yr ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd, a ph'un a wnaethant arwain at unrhyw newidiadau yn y cais.
7	6.4.50 a 8.4.48	*'Datganiad bod yr Ymgeisydd yn bwriadu gwneud cais am ganiatâd datblygu i'r Ysgrifennydd Gwladol'.* Caiff cais DCO ei gyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, yn unol â pharagraff 2.2.1.
8	8.4.22	Sicrhewch fod y Tablau wedi'u rhifo'n gywir. Er enghraifft, mae'r paragraff yn cyfeirio at Dabl 8-5 mewn perthynas â'r lleoliadau ar gyfer gweld y copïau papur o ddogfennau, ond mae'r Tabl ei hun wedi'i rifo 8-4. Hefyd, nid yw wedi'i gynnwys ar y rhestr Tablau na'r dudalen Cynnwys.
9	8.4.47	Mae Tabl 8.6 yn cyfeirio at gyhoeddiadau a dyddiadau pan gyhoeddwyd hysbysiad a48 Cam 2, ond mae'r Tabl ei hun wedi'i rifo 8-5.
10	8.6	Ymgynghoriad Anstatudol Cam 2 (Chwefror 2018-Mai 2018) yn dilyn Ymgynghoriad Statudol Cam 2. '*Ymgymerodd APL â nifer o weithgareddau anstatudol ychwanegol […] (Mawrth 2018-Mai 2018).* Esboniwch pan weithredwyd fel hyn.
11	11.1.3	Mae'r Ymgeisydd yn cyfeirio at a50 Deddf Cynllunio *2008: Canllawiau ynghylch y weithdrefn cyn gwneud cais.* Gallai fod yn fuddiol gwneud y cyfeiriadau penodol at yr adran berthnasol trwy gydol y ddogfen lle bo angen.
12	11.1.12	Ceir cyfeiriad at Dabl 6-1 sy'n tynnu sylw at yr allbynnau allweddol. Fodd bynnag, mae'r Tabl ei hun (Allbynnau Allweddol y Prosiect a Gynhyrchwyd drwy Adborth yr Ymgynghoriad) wedi'i rifo 11-1.

Atodiad 6: Sylwadau ar y Datganiad Amgylcheddol drafft (Penodau 1-5)

I gadarnhau, nid oes unrhyw sylwadau ar y Datganiad Amgylcheddol, Penodau 1, 2 na 4.

Pennod 3 y Datganiad Amgylcheddol			
Rhif y pwynt	**Para Dat Amg**	**Detholiad o'r Datganiad Amgylcheddol**	**Cwestiwn / Sylw**
1	n/a	Atodiad 3.3: Cynllun Amlinellol Rheoli Traffig Adeiladu	Mae'r dudalen cynnwys yn datgan y bydd y Datganiad Amgylcheddol Atodiad 3.3 yn darparu 'cynllun amlinellol rheoli traffig adeiladu'. Nid oes unrhyw gyfeiriad at y ddogfen hon yn y DCO drafft.
2	Pennod 3 y Dat Amg	n/a	Dylai'r rhifau gwaith gael eu cynnwys ym mhennod disgrifiad prosiect o'r Datganiad Amgylcheddol, er mwyn hwyluso croesgyfeirio rhwng y Datganiad Amgylcheddol, y DCO drafft a'r Cynlluniau Gwaith. Bydd hyn yn helpu rhoi hyder i'r Awdurdod Archwilio bod yr holl waith y ceisir caniatâd datblygu ar ei gyfer wedi'i nodi a'i asesu yn y Datganiad Amgylcheddol.
3	3.4.20	*"Mae'n debygol y byddai hyn yn osgoi elfen o dorri a llenwi, er bod rhywfaint o gloddio yn dal yn debygol".*	Dylid rhoi amcangyfrif o gyfaint y deunydd sy'n debygol o gael ei gloddio, gan gynnwys unrhyw ragdybiaethau sy'n berthnasol i'r asesiadau o agweddau perthnasol (e.e. symudiadau traffig, trin gwastraff, tir halogedig).
4	3.4.21	*Nid yw maes parcio presennol y Grid Cenedlaethol yn cael ei effeithio gan lwybr y Ffordd Fynediad, ond gellid ei ddefnyddio fel man gosod dros dro cychwynnol tra bod gwaith adeiladu'r rhan newydd o'r ffordd yn dechrau.*	A yw Maes Parcio'r Grid Cenedlaethol o fewn y ffin llinell goch?

5	3.4.26	*"Byddai'r colofnau goleuadau oddeutu 8m o ran uchder..."*	A ddylid pennu terfyn uchder ar gyfer y colofnau goleuadau yn y Datganiad Amgylcheddol/DCO drafft?
6	3.5.5	Disgrifiad o'r cysylltiad nwy	A fydd unrhyw ffensys/colofnau goleuadau o amgylch y gosodiad uwchlaw'r ddaear (AGI)?
7	3.7.1	*'Byddai adeiladu a chomisiynu'r Prosiect yn cymryd oddeutu 22 mis, gan ragweld dyddiad dechrau yn 2020'.*	A yw'r cyfnod 22 mis yn cynnwys adeiladu a chomisiynu'r cysylltiadau nwy a thrydanol? Os nad ydyw, sut mae hyn wedi'i ymgorffori i'r asesiadau yn y Datganiad Amgylcheddol? Pa ragdybiaethau sydd wedi'u gwneud yn y Datganiad Amgylcheddol ynglŷn â graddfeydd amser ar gyfer adeiladu'r cysylltiadau nwy a thrydanol? (e.e. dyddiad dechrau a hyd y gwaith adeiladu?)
8	3.7.32	Disgrifiad o'r cysylltiad nwy	Pa mor ddwfn y mae'r ffosydd yn debygol o fod? Beth fydd y lled gweithio?
9	3.7.36	*"Yn ystod adeiladu, mae'n debygol y bydd yr hawl dramwy gyhoeddus yn cael ei chau dros dro…"*	A fydd unrhyw ddargyfeiriadau i hawl dramwy gyhoeddus yn cael eu darparu? Dylid trafod hyn a'i gytuno gyda'r Cyngor.
10	3.7.38	*"…bydd y Cysylltiad Trydanol yn mynnu pontydd dros dro (er enghraifft, pont Bailey dros dro) dros y Brif Bibell Ddŵr a'r biblinell olew yn ystod y cyfnod adeiladu…"*	Beth fyddai dimensiynau/uchderau'r adeileddau hyn? Dylid asesu effeithiau o adeileddau dros dro fel y rhain yn y Datganiad Amgylcheddol.
11	3.9.6	*"Byddai deunyddiau a gorffeniadau yn cael eu dewis i sicrhau nad yw golwg y Gwaith Cynhyrchu Pŵer yn dirywio gydag amser".*	Pa ragdybiaethau sydd wedi'u gwneud yn asesiadau'r Datganiad Amgylcheddol ynglŷn â golwg allanol yr orsaf bŵer arfaethedig a sut y sicrheir y rhagdybiaethau hyn? Dylid datgan hyn yn glir yn yr asesiadau o agweddau perthnasol, er enghraifft yr asesiad o'r Dirwedd ac Effaith Weledol.
12	3.9.10	Gweithredu a Chynnal a Chadw *"…bydd Cynllun Teithio yn cael ei greu'n benodol a fydd yn targedu cyflogeion, er mwyn lleihau nifer y cerbydau sy'n mynd i mewn i ardal y Prosiect".*	Mae gofyniad 13 y DCO drafft yn cyfeirio at Gynllun Teithio adeiladu, ond sut byddai'r Cynllun Teithio gweithredol (cyfeirir ato ym mharagraff 3.9.10 y Datganiad Amgylcheddol) yn cael ei sicrhau?

13	3.11.1	Mae Adran 3.11 yn nodi'r mesurau lliniaru sydd wedi'u hymgorffori. *'At ddibenion y Datganiad Amgylcheddol hwn, rhagdybiwyd y bydd y mesurau lliniaru ymgorfforedig hyn yn eu lle o'r dechrau. Mae'r Datganiad Amgylcheddol hwn, felly, wedi asesu effeithiau sylweddol tebygol y Prosiect, gan gynnwys mesurau lliniaru ymgorfforedig'.*	Ar hyn o bryd, mae'r Datganiad Amgylcheddol yn disgrifio'r holl fesurau lliniaru o dan y pennawd 'Mesurau Lliniaru Ymgorfforedig'. Rydym o'r farn fod hyn yn rhy eang ac nad yw'r holl fesurau a ddisgrifiwyd yn fesurau lliniaru sydd wedi'u 'hymgorffori' yn nyluniad y Datblygiad Arfaethedig - er enghraifft mesurau a fyddai'n cael eu cynnwys yn Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu. Argymhellwn fod y Datganiad Amgylcheddol yn gwahaniaethu'n glir rhwng 'mesurau lliniaru ymgorfforedig' (h.y. hynny sy'n gynhenid i ddyluniad y prosiect ac sy'n atal, lleihau ac yn gwrthbwyso unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol) a mesurau y dylid eu dosbarthu fel 'mesurau lliniaru' (h.y. y mesurau hynny sy'n ychwanegol at ddyluniad y prosiect ac sy'n ceisio atal, lleihau a gwrthbwyso unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol sy'n weddill). Yn ogystal â hyn, cynghorir yr Ymgeisydd i gyflwyno arwyddocâd effeithiau sy'n cynnwys 'mesurau lliniaru ymgorfforedig' cyn cymhwyso 'mesurau lliniaru' ac ar ôl cymhwyso mesurau lliniaru. Mae hyn yn angenrheidiol i alluogi'r Awdurdod Archwilio i ddeall effeithiolrwydd (o ran asesu) y mesurau lliniaru arfaethedig, ac felly beth fyddai'n digwydd pe bai unrhyw rai o'r mesurau lliniaru arfaethedig yn methu neu pe na baent yn cael eu gweithredu. Gallai fod yn fuddiol cyflwyno hyn mewn tabl. Dylai fod yn glir sut caiff pob mesur (boed yn 'fesur lliniaru ymgorfforedig' neu'n fesur lliniaru') ei sicrhau.
14	3.11.15	'Institute of Air Quality Managers'	Camgymeriad teipio – 'management' sy'n gywir.

15	3.11.48	*'Bydd ymchwiliad ymwthiol o'r ddaear yn cael ei gynnal ar ôl cael caniatâd, i'w sicrhau drwy Ofyniad DCO…'*	A fyddai hyn yn cael ei sicrhau drwy Ofyniad 10 y DCO drafft? Nid yw Gofyniad 10(1) fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd yn cyfeirio'n benodol at 'ymchwiliad ymwthiol o'r ddaear'. Gallai hwn fod yr un fath â'r 'adroddiad ymchwiliad safle' y cyfeirir ato yn 10(1)(d) – os felly, awgrymwch ddiwygiad i sicrhau bod yr un derminoleg yn cael ei defnyddio'n gyson ar draws y Datganiad Amgylcheddol a'r DCO drafft.

Pennod 6 y Datganiad Amgylcheddol			
Rhif y pwynt	**Para Dat Amg**	**Detholiad o'r Datganiad Amgylcheddol**	**Cwestiwn / Sylw**
1		n/a	Cyfeirir at yr iteriad blaenorol o'r Datblygiad Arfaethedig (hwnnw sy'n destun Barn Cwmpasu'r Ysgrifennydd Gwladol) ym Mhenodau 3 a 5 y Datganiad Amgylcheddol, ond gallai elwa o gynnwys disgrifiad pellach ym Mhennod 5 – yn enwedig o ran sut yr ystyriwyd yr effeithiau amgylcheddol wrth ddiystyru'r opsiwn hwn. Er enghraifft, effaith weledol lai o 1 stac o gymharu â 5 stac.
2	5.2.7	*'…mae Drax yn dod â thri phrosiect cynhyrchu pŵer arall yn eu blaen drwy Ddeddf Cynllunio 2008, sef: Progress Power Ltd yn Eye Airfield yn Swydd Suffolk…Hirwaun Power Ltd yn Hirwaun yn Ne Cymru …a Millbrook Power Ltd yn Swydd Bedford…'*	A yw prosiect Ailbweru Drax (sy'n cael ei hyrwyddo gan Drax Power Ltd) yn berthnasol yma hefyd?

Atodiad 7: Sylwadau ar y Cynlluniau drafft

Rhif y pwynt	Rhif y paragraff	Cwestiwn/ Sylw
1	Cyffredinol	Wrth gyfeirio at y cynlluniau canlynol: • Cynlluniau Tir (Taflenni 1 o 2 a 2 o 2), • Cynllun Gwaith (Taflen 1 o 1), a • Chynllun Hawliau Tramwy, Strydoedd a Mynediad (Taflenni 1 o 2 a 2 o 2). Mae'r holl Gynlluniau yn dangos cyfeiriad y Gogledd, maent yn cynnwys cyfeiriadau ac wedi'u dyddio, ac yn cyfeirio at Reoliadau APFP (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefnau Rhagnodedig).
2	Cyffredinol	Mae gwahaniaeth clir rhwng beth sy'n dir rhydd-ddaliad, hawliau newydd a thir dros dro i'w gaffael at ddibenion Caffael Gorfodol.
3	Cynllun Gwaith (Cyf Dog 2.3)	Mae'n anodd deall o'r cynllun hwn ble fyddai'r gweithiau gwahanol wedi'u lleoli (yn benodol, yn yr ardal ffurf diemwnt lle fyddai'r orsaf bŵer ac ati yn cael eu lleoli). Deellir bod y wybodaeth hon yn anodd ei dangos yn glir ar un cynllun. Felly, a ellid darparu cynlluniau eraill sy'n dangos y gweithiau unigol yn ychwanegol at y cynllun hwn?

Atodiad 8: Sylwadau Cyffredinol

Rhif pwynt	Rhif paragraff	Cwestiwn/ Sylw
1	Dd/B	Yn ystod yr Archwiliad, gall yr Ymgeisydd ddarparu 'gwybodaeth arall' sydd o bwys i'r Datganiad Amgylcheddol a chanfyddiadau'r asesiadau. Dylid adlewyrchu hyn yn y diffiniad o'r Datganiad Amgylcheddol yn Erthygl 2. Cynghorir yr Ymgeisydd i ddiweddaru'r diffiniad o'r Datganiad Amgylcheddol trwy gydol yr archwiliad, fel ei bod yn glir ar ddiwedd yr archwiliad beth sydd wedi'i gynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol.
2	Dd/B	Dylai'r Ymgeisydd ystyried darparu dogfen sy'n amlinellu'r holl ganiatadau a thrwyddedau eraill y bydd eu hangen arno (e.e. cysylltiadau nwy a thrydanol), gan gynnwys graddfeydd amser ac ati. Gall yr Awdurdod Archwilio ofyn am wybodaeth yn ymwneud â hyn yn ystod yr Archwiliad.
3	Dd/B	Dylai'r Ymgeisydd roi ystyriaeth i ddarparu fersiynau Cymraeg o ddogfennau allweddol, gan fod y Gymraeg yn ystyriaeth bwysig ar gyfer gwaith achos yng Nghymru. Dylai aelodau'r cyhoedd allu cyfranogi yn yr Archwiliad yn Gymraeg neu Saesneg. Byddai cyfieithu dogfennau allweddol o gymorth gyda hyn.

Gellir rhoi cyngor ar wneud cais am orchymyn yn rhoi caniatâd datblygu neu wneud sylwadau am gais (neu gais arfaethedig). Fodd bynnag, nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallwch ddibynnu arno, a dylech gael eich cyngor cyfreithiol a phroffesiynol eich hun, yn ôl yr angen.

Bydd cofnod o'r cyngor a roddir yn cael ei gofnodi ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol, ynghyd ag enw'r unigolyn neu'r sefydliad a ofynnodd am y cyngor. Caiff preifatrwydd unrhyw wybodaeth bersonol arall ei warchod yn unol â'n Siarter Gwybodaeth, y dylech edrych arno cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.